# Prifysgol Abertawe

## Adolygiad Sefydliadol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

Mai 2014

# Cynnwys


**Yr adolygiad yma ........ 1**

**Canfyddiadau allweddol ........ 2**

Beirniadaethau ASA am Brifysgol Abertawe ........ 2

Nodweddion o arfer da ........ 2

Argymhellion ........ 2

Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith ........ 3

**Ynghylch Prifysgol Abertawe ........ 3**

**Esboniad o'r canfyddiadau am Brifysgol Abertawe ........ 5**

1 Safonau academaidd ........ 5
- Canlyniad ........ 5
- Cyflawni meincnodau cymwysterau allanol ........ 5
- Defnydd o arholwyr allanol ........ 6
- Asesiad a safonau ........ 7
- Gosod a chynnal safonau rhaglenni ........ 8
- Meincnodau pwnc ........ 9

2 Ansawdd cyfleoedd dysgu ........ 10
- Canlyniad ........ 10
- Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu a dysgu ........ 10
- Adnoddau dysgu ........ 10
- Llais y myfyrwyr ........ 12
- Defnyddir gwybodaeth rheoli i wella ansawdd a safonau ........ 13
- Mynediad i'r Brifysgol ........ 13
- Cwynion ac apeliadau ........ 14
- Cyngor ac arweiniad gyrfaoedd ........ 15
- Cefnogi myfyrwyr anabl ........ 16
- Cefnogi myfyrwyr rhyngwladol ........ 16
- Cefnogi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ........ 16
- Dysgu a ddarperir drwy drefniadau cydweithredol ........ 17
- Dysgu hyblyg a dosranedig ac e-ddysgu ........ 18
- Dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gweithle ........ 19
- Siarter y myfyrwyr ........ 19

3 Gwybodaeth am gyfleoedd dysgu ........ 19
- Crynodeb ........ 19

4 Gwelliant i gyfleoedd dysgu ........ 21
- Canlyniad ........ 21

**Rhestr termau ........ 25**

## Yr adolygiad yma

Mae hwn yn adroddiad Adolygiad Sefydliadol a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) ym Mhrifysgol Abertawe. Cafwyd yr adolygiad rhwng 12 a 16 Mai 2014 ac fe'i weithredwyd gan dîm o bedwar adolygwr, fel a ganlyn:

# Canfyddiadau allweddol

## Beirniadaethau ASA am Brifysgol Abertawe

Ffurfiodd tîm adolygu ASA y beirniadaethau dilynol am y ddarpariaeth addysg uwch ym Mhrifysgol Abertawe.

- Mae'r safonau academaidd yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU mewn perthynas â safonau trothwy.
- Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Brifysgol yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r wybodaeth y mae'r Brifysgol yn ei chynhyrchu am gyfleoedd dysgu'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r gwelliant mewn cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Brifysgol yn **derbyn cymeradwyaeth**.

## Nodweddion o arfer da

Canfu tîm adolygu ASA y nodweddion o **arfer da** dilynol ym Mhrifysgol Abertawe.

- Mae'r Llwybr Gyrfa Academaidd yn cyfrannu'n gadarnhaol at gynnal a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr (paragraff 2.1.2).
- Mae gwaith Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe i werthuso a datblygu polisïau ac arferion dysgu ac addysgu, ynghyd â'r rhaglen o ddatblygiad staff sydd wedi'i chynllunio'n dda ac y mae nifer dda'n 0 1 114.4.4.4.4.i(a )8yfyeTf1 0 0 1 72 488(.)-4(1.2)-4(r)-3(an):

## Cadarnhad o'r camau gweithredu sydd ar waith

Mae tîm adolygu ASA yn **cadarnhau**'r camau gweithredu dilynol y mae Prifysgol Abertawe yn eu cymryd yn barod i sicrhau safonau academaidd a/neu i wella'r ddarpariaeth addysgol y mae'n ei chynnig i'w myfyrwyr.

> Mae'r Brifysgol yn gweithredu i sicrhau bod canlyniadau dysgu'n cael eu mynegi mewn ffordd sy'n gyson â disgwyliadau'r FHEQ (paragraff 1.1.3).

1.1.3

1.2.5 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod gan y Brifysgol gyfres o reoliadau a gweithdrefnau wedi'u datblygu'n dda i lywio arholi allanol a gwelsant amrediad eang o dystiolaeth i ddangos bod y gweithdrefnau hyn yn gweithio'n effeithiol ac yn gyson ar draws y sefydliad. Daeth i'r casgliad bod y Brifysgol yn gwneud defnydd trwyadl o arholwyr allanol.

## Asesiad a safonau

1.3 Mae gan y Brifysgol fesurau i sicrhau bod prosesau cynllunio, cymeradwyo, monitro ac adolygu asesiadau'n rhoi cyfle i'r myfyrwyr ddangos canlyniadau dysgu eu dyfarniadau.

1.3.1 Mae rheoliadau asesu'n cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Rheoliadau, Ansawdd a Safonau a'r Senedd ac mae'r Byrddau Academaidd yn adolygu'r asesiadau bob blwyddyn gan ddefnyddio ystod o adborth, yn cynnwys adborth gan arholwyr allanol a myfyrwyr.

1.3.2 Mae'r Brifysgol yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i staff a myfyrwyr yn y CYSA a'r Polisi Adborth ac Asesu sy'n nodi'n glir egwyddorion asesiad amrywiol, cadarn a dibynadwy

hasesu yn y Gymraeg. Nid yw myfyrwyr yn derbyn credyd am esgusodiad neu iawndal ac nid ydynt yn gymwys i gael dyfarniadau heblaw bod eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu gofynnol. Mae'r polisi ar amgylchiadau esgusodol yn cael ei weithredu'n ganolog drwy'r Gofrestrfa Academaidd a'r Pwyllgor Achosion Myfyrwyr i sicrhau bod arferion yn gyson. Mae anghenion myfyrwyr sydd â gofynion addysgol penodol yn cael eu cefnogi drwy'r Swyddfa Anableddau, y Swyddfa Arholiadau, tiwtoriaid cyswllt anableddau a chydlynwyr modiwl.

1.3.3 Mae llawlyfrau'r colegau a'r rhaglenni a Siarter y Myfyrwyr hefyd yn rhoi gwybodaeth am asesiad. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo ac adolygu rhaglenni'n gofyn bod strategaethau asesu'n cael eu cynnwys yn nogfennaeth y rhaglenni. Gall y tîm adolygu gadarnhau bod strategaethau asesu'n cael eu hystyried yn ystod y prosesau hyn. Mae gofyn i'r colegau roi amserlenni asesu ac adborth i fyfyrwyr ar ddechrau'r flwyddyn ac mae meini prawf marcio wedi'u disgrifio mewn llawlyfrau. Mae'r myfyrwyr o'r farn bod yr arweiniad a ddarperir ar asesiadau'n ddefnyddiol ond nad yw meini prawf graddio'n cael eu deall yn llawn bob amser gan y myfyrwyr. Mae sgorau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) yn dangos bod y boddhad cyffredinol gyda'r prosesau asesu wedi gwella ers yr Adolygiad Sefydliadol diwethaf.

1.3.4 Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Sicrhau Ansawdd (CYSA) yn nodi arweiniad ar farcio a safoni. Caiff yr holl waith a aseswyd ei gyflwyno a'i farcio'n anhysbys, cyn belled ag y bo fformat yr asesiadau'n ganiatáu. Mae'r Brifysgol yn derbyn amrywiaeth mewn safoni, gan gydnabod amrywiol alwadau'r gwahanol ddisgyblaethau a mathau o asesiad. Disgwylir i'r colegau ddethol a gwneud yn eglur i'r myfyrwyr yr arferion mwyaf priodol i'w rhaglenni o bum model a amlinellir yn y CYSA. Gofynnir i arholwyr allanol roi sylwadau ar y broses safoni yn eu hadroddiadau. Er bod arweiniad y Brifysgol yn glir, gwelodd y tîm adolygu nifer o esiamplau mewn cofnodion gan Bwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Colegau, Byrddau Astudiaethau a chyfarfodydd rhwng myfyrwyr a staff ac mewn nifer fechan o adroddiadau arholwyr allanol, o ddiffyg eglurder mewn perthynas â'r model safoni sy'n cael ei weithredu, ac weithiau roedd y llawlyfrau'n gwneud dim byd mwy na chyfeirio myfyrwyr yn ôl at arweiniad y CYSA. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** y dylai'r Brifysgol egluro'r modelau safoni sydd ar waith yn glir ar lefel y modiwl a'r rhaglen.

1.3.5 Mae cylch gwaith byrddau asesu wedi'i osod allan yn glir yn y CYSA ac mae swyddogion arholi yn y colegau hefyd yn derbyn llawlyfr a hyfforddiant ar gyfer eu rolau. Mae'n ddyletswydd gan Oruchwyliwr Asesu'r Brifysgol i hybu cywirdeb academaidd ac osgoi arferion annheg.

1.3.6 Mae polisi'r Brifysgol ar adborth am asesiad yn gofyn cwblhau o fewn tair wythnos, gyda'r colegau'n monitro'r glynu at y gofynion ar hyn o bryd ac, o 2014-15 ymlaen, bydd Pwyllgor Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol yn gwneud hynny. Roedd yr adborth gan fyfyrwyr am

weithrediad y polisi hwn yn amrywiol; roedd rhai myfyrwyr yn teimlo bod y polisi yma'n cael ei gadw fel arfer, tra bo eraill yn rhoi esiamplau o sefyllfaoedd lle'r oedd adborth wedi cymryd rhagor o amser.

1.3.7 Mae hyfforddiant mewn asesu ar gael i'r holl staff drwy Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (ADAA) a'r Gwasanaethau Datblygu a Hyfforddiant. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth o arferion da ac arloesol yn cael eu lledaenu drwy'r dulliau hyn. Ar hyn o bryd mae'r

1.4.4 Mae'r holl raglenni'n cael eu hadolygu'n gyfnodol, pob pum mlynedd fel arfer ond gall y cylch gael ei addasu os oes newidiadau mawr, ymgysylltiadau eang cyrff PSRB, canlyniadau cadarnhaol yn yr Adolygiad Rhaglenni Blynyddol neu Ymgysylltiad Profiad Myfyrwyr blaenorol. Mae'r panel adolygu wedi'i gadeirio gan academydd uwch, ac mae'n cynnwys cyfraniad allanol a gan fyfyrwyr. Mae'r ddogfennaeth adolygu'n gynhwysfawr ac mae tystiolaeth i ddangos bod hyn yn cael ei ystyried yn ofalus. Gallai Adolygiad Rhaglenni Cyfnodol gael ei sbarduno gan Ymgysylltiad Profiad Myfyrwyr sydd wedi ei gychwyn yn arbennig pan welir fod ardal yn tanberfformio yn erbyn ystod o ddangosyddion, yn enwedig

2.2.3 Mae rôl ADAA mewn gwerthuso a datblygu polisïau ac arferion dysgu ac addysgu, ynghyd â'r rhaglen o ddatblygiad staff sydd wedi'i chynllunio'n dda ac y mae nifer dda'n ei mynychu, yn **arfer da**.

2.2.4 Disgrifiwyd y strategaeth ar gyfer penodi staff addysgu i'r tîm adolygu fel system

gyfer cyflwyno, asesu a rhoi adborth ar waith y myfyrwyr oll ar-lein ac mae'n bwriadu gwneud y rhain yn orfodol o hydref 2014 ymlaen. Roedd y staff a'r myfyrwyr yn gyffredinol frwdfrydig am y datblygiad yma ond myne
draws y Brifysgol.

2.2.10 Mae'r Brifysgol wedi gwella'n amlwg yn y ddwy flynedd ddiwethaf o ran y sgorau am adnoddau dysgu yn yr AMC, a oedd yn is na chyfartaledd y sector ynghynt. Clywodd y tîm adolygu fod y myfyrwyr yn gyffredinol yn fodlon iawn gyda'r ddarpariaeth llyfrgell a chyfeiriwyd yn benodol at y gefnogaeth ragorol i'w dysgu gan y tîm arbenigwyr pwnc sydd yno, gan gynnwys y gefnogaeth i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig oddi ar y campws. Mae strwythurau sydd ar waith yn darparu cyswllt agos rhwng tîm y llyfrgell a'r colegau, gan gynnwys presenoldeb ar

2.3.5 Mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr wedi adolygu effeithiolrwydd eu systemau ac yn defnyddio'r porth 'My UNI' i annog cyfranogaeth mewn arolygon, yn cynnwys yr AMC. Cynyddodd y gyfranogaeth yn 2013 a 2014. Defnyddir canlyniadau o arolygon, yn enwedig yr AMC, ar gyfer Adroddiad a Chynllun Gweithredu Profiad Myfyrwyr sefydliadol. Mae pob coleg a phob gwasanaeth yn cynhyrchu ymatebion lleol a ystyrir mewn cyd-gyfarfod o'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu a'r Pwyllgor Materion Myfyrwyr ac a adroddir i'r corff myfyrwyr yn uniongyrchol drwy'r porth 'My UNI'. Mae canlyniadau'r AMC yn bwydo i mewn i Adroddiad Dangosyddion Ansawdd Academaidd sy'n meincnodi'r Brifysgol pwnc wrth bwnc yn erbyn lefelau'r sefydliad a'r sector. Gall y dadansoddiad sbarduno Ymgysylltiad Profiad Myfyrwyr rhwng cynrychiolwyr ar y Pwyllgor Rheoliadau, Ansawdd a Safonau, yn cynnwys myfyrwyr, a thîm y pwnc. Roedd y tîm o'r farn bod hwn yn agwedd ystyrlon sydd wedi'i gynnwys yn dda tuag at ddefnyddio data a gafwyd gan fyfyrwyr. Mae'r defnydd wedi'i gydlynu a wneir o ystod eang o adborth gan fyfyrwyr, yn cynnwys yr AMC, i wella profiad y myfyrwyr yn **arfer da**.

## Defnyddir gwybodaeth rheoli i wella ansawdd a safonau

2.4 Mae'r Brifysgol yn cynhyrchu ac yn ystyried amrywiaeth eang o wybodaeth rheoli er mwyn cefnogi ansawdd a gwella safonau yn y mwyafrif o'i darpariaeth.

2.4.1 Mae cyfres ddata fanwl am ei darpariaeth israddedig yn cael ei pharatoi'n flynyddol, ar sail dangosyddion sy'n cynnwys yr AMC, ystadegau mynediad a chynnydd myfyrwyr a chanlyniadau'r arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch, wedi'u torri i lawr yn ôl oedran, rhyw ac ethnigrwydd i lefelau'r colegau a'r rhaglenni. Defnyddir hon yn effeithiol ar gyfer monitro cyfnodol a blynyddol ac mae'n hysbysu dadansoddiad a chynlluniau gweithredu.

2.4.2 Mae Pwyllgor Cynghori Academaidd Coleg Rhyngwladol Cymru Abertawe/Prifysgol Abertawe'n ystyried gwybodaeth rheoli mewn perthynas â darpariaeth yng Ngholeg Rhyngwladol Cymru Abertawe. Mae Adroddiad Asesu Blynyddol gan Goleg Rhyngwladol Cymru Abertawe ynghyd â dadansoddiadau gan golegau o gyflawniad y myfyrwyr yn symud o Goleg Rhyngwladol Cymru Abertawe, yn cael eu defnyddio gan y Pwyllgor Cynghori Academaidd i fonitro cyflawniad y myfyrwyr a gafodd le i gychwyn yng Ngholeg Rhyngwladol Cymru Abertawe. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth bod y Pwyllgor Cynghori Academaidd yn ystyried y data hwn yn ofalus ac yn ei ddefnyddio i gynllunio camau gweithredu ar gyfer gwella dysgu'r myfyrwyr. Mae gwybodaeth rheoli'n ymwneud â'r maint gweddol fychan o ddarpariaeth gydweithredol arall yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol. Nododd y tîm adolygu fod pob partner cydweithredol wedi cyflwyno adroddiad monitro blynyddol gyda data am gynnydd a chyflawniad myfyrwyr. Gwelodd y tîm dystiolaeth bod y Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol yn ystyried yr adroddiadau'n ofalus.

2.4.3 Dadansoddodd y Gwasanaethau a Systemau Gwybodaeth gynnydd y myfyrwyr mewn grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac sydd â nodweddion gwarchodedig ar gyfer 2012-13, gyda'r bwriad o ganfod unrhyw batrymau.

2.4.4 Mae'r Brifysgol wedi cymharu ei rhaglenni ymchwil ôl-raddedig gyda phrifysgolion eraill a, gan gydnabod bod angen gwella ei system o gofnodi cynnydd myfyrwyr ymchwil unigol, mae wedi ei hymrwymo ei hun i sefydlu system ar-lein bwrpasol i fod yn weithredol o fis Mai 2014. Fodd bynnag, mae'r tîm adolygu'n nodi nad oes tystiolaeth o gasglu a chronni'n systematig ddata yn ymwneud â mynediad, cynnydd a chwblhau rhaglenni ymchwil ôl-raddedig neu adroddiadau systematig gan y Bwrdd Dilyniant Ymchwil Ôl-raddedig i'w bwyllgor rhieniol, y Bwrdd Academaidd Ymchwil Ôl-raddedig. O ganlyniad, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn gweithredu system i'w galluogi i oruchwylio cyflawniad y myfyrwyr ar ei rhaglenni ymchwil ôl-raddedig.

## Mynediad i'r Brifysgol

2.5 Mae'r polisïau a ddefnyddir i dderbyn myfyrwyr i'r Brifysgol yn glir, teg, eglur ac yn cael eu gweithredu'n gyson.

esgusodol, wedi gostwng nifer yr apeliadau sy'n mynd ymlaen i wrandawiad ffurfiol a nifer y cwynion sy'n codi o'r coleg i lwyfan y Brifysgol. Lle mae'r myfyrwyr yn anfodlon gyda chanlyniad

2.11.2 Rheolir y broses o ddethol a chymeradwyo partneriaid newydd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cyflwyno a Chymeradwyo Darpariaeth Addysg Uwch gydag Eraill, sy'n cynnwys

wybodaeth am gymorth bugeiliol a gwasanaethau i fyfyrwyr, ynghyd â thudalennau'n rhoi gwybodaeth ariannol am ffioedd a chostau byw. Yn ddefnyddiol iawn, mae'r 'Canllaw i Rieni i Addysg Uwch ym Mhrifysgol Abertawe' yn diffinio jargon arbenigol ac mae'n cynnwys cwestiynau cyffredin.

3.3 Mae'r Adran Farchnata'n llofnodi'r holl wybodaeth sydd wedi'i thargedu at ddarpar fyfyrwyr. Mae'r prosbectysau'n cael eu diweddaru'n flynyddol a chesglir manylion y newidiadau lleol gan yr Adran Farchnata cyn i'r proflenni gael eu rhannu gyda'r Swyddfa Derbyn, Gwasanaethau Proffesiynol a'r colegau, sydd oll â rheolwyr marchnata sy'n gyfrifol am lofnodi i gymeradwyo'r wybodaeth. Mae gwybodaeth partneriaid yn cael ei gwirio i sicrhau ei bod yn gywir ar bob cam yn y broses o ddilysu ac adolygu cyfnodol. Mae system ar waith sydd wedi'i strwythuro'n dda ar gyfer monitro deunyddiau recriwtio dramor ac mae gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr ar wefannau partneriaid wedi cael ei archwilio'n ddiweddar (gwelwch baragraff 2.11.4).

3.4 Mae data Cyfresi Gwybodaeth Allweddol yn hygyrch drwy wefan Unistats neu drwy ddyfais ar dudalennau rhaglenni ac mae'n cydymffurfio gyda chylchlythyrau CCAUC perthnasol, er enghraifft drwy nodi'n glir beth yw costau llety ac unrhyw gostau astudio ychwanegol. Mae'r data'n cael ei reoli'n briodol, gyda gwybodaeth wedi'i dynnu o ddisgrifwyr modiwl wedi'u storio y gall y colegau edrych arnynt wedyn a'u diweddaru. Yn dilyn gwirio, llofnodir y gyfres ddata gyfan gan staff uwch y sefydliad ac mae systemau cadarn ar gyfer archwilio.

3.5 Anfonir gwybodaeth ar ôl y cynnig i ymgeiswyr llwyddiannus am ddiwrnodau agored ac mae ebyst rheolaidd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr. Mae Cyrraedd yn cydlynu'r wybodaeth, ac o 2014 bydd gan y colegau unigol dudalennau glanio am ymsefydliad i gasglu gwybodaeth gofrestru.

3.6 I fyfyrwyr cyfredol, mae'r wefan yn darparu gwybodaeth am reoliadau, gwasanaethau academaidd a chymorth ac astudio dramor. Cefnogir y rhain gan wybodaeth sy'n benodol berthnasol i'r colegau a'r rhaglenni a chadarnhaodd y myfyrwyr bod yr wybodaeth yma'n ddefnyddiol. Mae porth mewnrwyd yn rhoi dolenni i'r staff at wybodaeth a systemau rheoli, ac mae'n rhoi dolenni at wasanaethau i fyfyrwyr, ond mae'r mwyafrif o'r wybodaeth ar lefel y rhaglen yn cael ei darparu drwy'r rhith-amgylchedd dysgu. Mae rhywfaint o wybodaeth yn cael ei rhoi i mewn yn awtomatig, ond rhaid i ganllawiau asesu, meini prawf marcio, papurau sampl a deunyddiau cyn darlithoedd gael eu hychwanegu gan staff, a gyfaddefodd bod cydymffurfio â gofynion newydd y Brifysgol yn waith sydd ddim ond ar y gweill weithiau. Cadarnhaodd y myfyrwyr bod y rhith-amgylchedd dysgu wedi gwella dros amser. Maent yn ystyried llawlyfrau'n ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth. Mae rhai adroddiadau arholwyr allanol ar gael drwy'r rhith-amgylchedd dysgu ond, gan fwyaf, mae'n rhaid eu cyrraedd drwy gynrychiolwyr myfyrwyr. Byddent yn cael eu rhannu'n fwy eang gyda'r corff myfyrwyr yn y dyfodol ac mae camau ar waith yn barod i alluogi hyn.

3.7 I fyfyrwyr ar raglenni cydweithredol, mae llawlyfrau ychwanegol y mae tiwtoriaid cyswllt yn gwirio eu cywirdeb. I fyfyrwyr rhyngwladol, mae'r gwe-dudalennau ar gael mewn nifer o ieithoedd, gyda gwybodaeth glir ar ofynion mynediad penodol i wledydd arbennig a gofynion am yr iaith Saesneg.

3.8 Mae gan y Brifysgol weithdrefn wedi'i sefydlu'n dda ar gyfer cyflwyno trawsgrifiadau ar ôl cwblhau dyfarniadau, yn cynnwys adolygiad o gywirdeb ar nifer o lefelau. Mae'r Brifysgol yn flaengar wrth weithredu Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch y sector cyfan, sy'n cofnodi gweithgareddau academaidd ac allgwricwlaidd sy'n cyfrannu at ddatblygiad personol a phroffesiynol, megis gwirfoddoli a chyflawni gwobrau cyflogadwyedd. Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd yn gweithio ar Wobr Undeb y Myfyrwyr. Mae gwybodaeth dda ar gael ar-lein i fyfyrwyr

3.9 Mae'r Brifysgol yn defnyddio Cod Ymarfer Gwybodaeth ac yn defnyddio templedi'n eang i sicrhau bod colegau a rhaglenni'n llenwi gwybodaeth am raglenni, y mae llawer ohono'n

4.2 Mae gan y mwyafrif o bwyllgorau uwch y Senedd welliant yn rhan o'u cylch gwaith. Y corff canolog sy'n ymwneud â gwelliant mewn dysgu ac addysgu yw'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu sy'n dod â chadeiryddion Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Colegau ynghyd i yrru mentrau gwelliant. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth ddogfennol o'i arfer o dderbyn diweddariadau ar strategaethau ac adroddiadau gan weithgorau. Mae'r Academïau'n adrodd i'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu, gydag Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (ADAA), Academi Cyflogadwyedd Abertawe ac Academi Cynhwysedd a Chefnogi Dysgwyr Abertawe (SAILS), oll yn eitemau sefydlog ar yr agenda. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu'n cynnal mentrau ac yn gyrru polisïau, megis tiwtora personol, safoni cynnwys y rhith-amgylchedd dysgu, ac asesiad ac adborth yr holl ffordd i'w gweithrediad. Mae tystiolaeth hefyd i ddangos

Myfyrwyr y Brifysgol. Mae cynnwys myfyrwyr israddedig yn bartneriaid mewn datblygu mentrau gwelliant yn **arfer da**.

4.7 Mae'r myfyrwyr hefyd yn gyfranogwyr brwd yn y pedair Academi draws-sefydliadol y mae pob un yn gyrru elfen o'r Cynllun Strategol a'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu, -

ymgysylltiad cyn Prifysgol, ymsefydliad estynedig, gwell adborth, cymorth i ddysgwyr a chymorth bugeiliol a chanfod yn fuan y rheiny sydd mewn perygl o beidio gwneud cynnydd. Mae gan SAILS hefyd rôl mewn monitro data am fynediad a chadwraeth, a gafodd ei gwella'n sylweddol yn ddiweddar. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth bod y strategaeth cadw myfyrwyr yn cael ei lledaenu i lefel y colegau. Mae gweithgareddau allanol SAILS yn cynnwys digwyddiadau blasu Cymraeg mewn ysgolion ac yn cynnig cyfleoedd addysgu i fyfyrwyr y Brifysgol drwy sesiynau blasu yn y gymuned.

4.12

# Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn ganllaw cyfeirio cyflym i dermau allweddol yn yr adroddiad hwn sydd efallai'n anghyfarwydd i rai darllenwyr. Mae gan y mwyafrif o dermau ddiffiniadau 'gweithredol' ffurfiol hefyd. Gallwch weld rhagor o wybodaeth yn y *Llawlyfr Adolygiad Sefydliadol: Cymru*, sydd ar gael ar ein gwefan ar:
www.qaa.ac.uk/cy/publications/pages/information-and-guidance-details.aspx?pubid=123.

Os byddwch eisiau diffiniadau gweithredol ffurfiol o dermau eraill, gwelwch yr adran ar sicrhau safonau ac ansawdd: www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality.